



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk

Conservation, Designation & Protection
Unit, Department of Agriculture,
Environment and Rural Affairs

Eich Cyf:

Trwy ebost

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 27 Mawrth 2019

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd)

Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Statws Unigolyn Arall yn yr archwiliad – ymgynghoriad ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd

Cyfeiriaf at y cais uchod gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer gorsaf bŵer niwclear. Mae'r orsaf bŵer niwclear arfaethedig wedi'i lleoli ar arfordir gogleddol Ynys Môn.

Yn ystod yr archwiliad ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, cyflwynwyd tystiolaeth sy'n amlygu effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn ffiniau Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Mae'r Awdurdod Archwilio wedi paratoi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES). Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi, dogfennu a chyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd yn y cais DCO, a'r wybodaeth a gyflwynwyd drwy gydol yr archwiliad gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant, hyd at Derfyn Amser 7 yr archwiliad (14 Mawrth 2019) mewn perthynas ag effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd.

Cyhoeddir y RIES i sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â Phartïon â Buddiant, gan gynnwys y cyrff cadwraeth natur statudol, ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r RIES.

Nid oedd eich sefydliad wedi gwneud cynrychiolaeth berthnasol, felly nid yw'n Barti â Buddiant yn awtomatig. Fodd bynnag, hoffai'r Awdurdod Archwilio eich gwahodd i

wneud sylwadau ar y RIES fel 'unigolyn arall', oherwydd yr effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd. Byddai'r Awdurdod Archwilio'n ddiolchgar pe byddech yn darllen y RIES ac yn cyflwyno unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud erbyn **10 Ebrill 2019**. Mae'r RIES ar gael trwy'r dudalen we ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/projects/EN010007/EN010007-003415-Report%20on%20the%20Implications%20for%20European%20Site%20-%20Bilingual%20-%20Copy.pdf>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech gael eglurhad ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Achos, sef Kay Sully, gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar frig cornel dde'r llythyr hwn.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Aelod Arweiniol y Panel

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>





The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services:
e-mail: Wylfa@planninginspectorate.gov.uk

Conservation, Designation and
Protection Unit, Department of
Agriculture, Environment and Rural
Affairs

Your Ref:

Our Ref: EN010007

By email

Date: 27 March 2019

Dear Sir/Madam

Planning Act 2008 (as amended) (PA 2008) and the Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 (as amended)

Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station

Other Person status in examination – consultation on the Report on the Implications for European Sites

I refer to the above application from Horizon Nuclear Power for a Development Consent Order for a nuclear power station. The proposed nuclear power station is located on the northern coast of Anglesey.

During the examination for the Proposed Development, evidence has been submitted which identifies potential impacts on European sites which lie within the borders of England, Scotland, Northern Ireland and Wales. The Examining Authority has prepared a Report on the Implications for European Sites (RIES). This report compiles, documents and signposts information provided within the DCO application, and the information submitted throughout the examination by both the Applicant and Interested Parties, up to Deadline 7 of the examination (14 March 2019) in relation to potential effects to European Sites.

The RIES is issued to ensure that Interested Parties, including the statutory nature conservation bodies are consulted formally on Habitats Regulations matters. This process may be relied on by the Secretary of State for the purposes of Regulation 63(3) of the Habitats Regulations. Following consultation, the responses will be considered by the Examining Authority in making its recommendation to the Secretary of State and made available to the Secretary of State along with the RIES.

Your organisation did not make a relevant representation so is not automatically an Interested Party. However, the Examining Authority wishes to invite you to comment on the RIES as an 'other person', because of the potential impacts on European sites.

The Examining Authority would be grateful if you could take the time to read the RIES and to provide any comments you wish to make by **10 April 2019**. The RIES is available through the webpage for the Proposed Development:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/projects/EN010007/EN010007-003415-Report%20on%20the%20Implications%20for%20European%20Site%20-%20Bilingual%20-%20Copy.pdf>

If you have any queries or require clarification in relation to the content of this letter, please do not hesitate to contact the Case Manager, Kay Sully, using the details shown in the top right corner of this letter.

Yours faithfully

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Lead Member of the Panel

This communication does not constitute legal advice.
Please view our [Privacy Notice](#) before sending information to the Planning Inspectorate.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

